

Fframwaith Asesu Prifysgol Bangor

1. Rhagarweiniad

Mae asesu effeithiol yn hollbwysig, nid yn unig fel ffordd o fesur cyflawni deilliannau dysgu'n effeithiol, ond hefyd fel ffordd o gyfoethogi'r profiad dysgu. Mae asesu'n ganolog i fywyd academaidd myfyrwyr, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd myfyrwyr yn aml yn seilio dewisiadau modiwlau ar y dulliau asesu a ddefnyddir.

Lluniwyd y Fframwaith hwn mewn ymgynghoriad ag ystod o bobl sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu ym Mhrifysgol Bangor, yn cynnwys myfyrwyr. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan arweinwyr rhaglenni a modiwlau, yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, wrth gynllunio ac adolygu dulliau asesu. Mae'r Fframwaith yn cynnwys egwyddorion cyffredinol i'w cymryd i ystyriaeth, yn ogystal â chanllawiau'n ymwneud â baich gwaith asesu, a chywerthoedd ar gyfer gwahanol fathau o asesu.

2. Egwyddorion Asesu

Dylid cymryd yr egwyddorion a ganlyn i ystyriaeth wrth gynllunio a gweithredu asesu:

1. Yn unol â *Chod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni* (Cod 08) y brifysgol, dylai asesu ar gyfer rhaglenni newydd, a rhaglenni a gyflwynir i'w hail-ddilysu, gael ei ddatblygu mewn partneriaeth a myfyrwyr.
2. Mae ymgynghori â myfyrwyr yn hanfodol cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i asesu. Wrth adolygu effeithiolrwydd dulliau asesu, dylid ceisio adborth myfyrwyr a'i gymryd i ystyriaeth, yn cynnwys data a gasglwyd drwy werthusiadau modiwlau.
3. Dylid cymryd camau i sicrhau cydlynu asesu ar lefel rhaglen, er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol ac amrywiaeth. Dylid cydnabod bod yna berygl o amrywiaeth annigonol, neu anghysonderau rhwng rhaglenni, os gwneir penderfyniadau ar lefel modiwl yn unig. Yn ogystal, os sicheir amrywiaeth priodol o asesu i fyfyrwyr ar draws rhaglen, yna byddant yn fwy tebygol o seilio dewisiadau modiwlau ar gynnwys yn hytrach na'r asesu.
4. Dylai asesu fod yn deg a chynhwysol. Wrth sicrhau cydbwysedd ac amrywiaeth, dylid cydnabod bod gwahanol fyfyrwyr yn perfformio'n well mewn rhai mathau o asesiadau nag eraill. Wrth gynllunio asesiadau dylid cymryd i ystyriaeth anghenion holl fyfyrwyr, yn cynnwys myfyrwyr gydag anabledau ac anawsterau dysgu. Dylai canlyniadau asesu gael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau na roddir unrhyw grwpiau neilltuol o fyfyrwyr dan anfantais.
5. Dylai pob modiwl gael mwy nag un asesiad fel rheol, beth bynnag fo'i werth credyd ac, yn arbennig, dylid osgoi arholiad sy'n werth 100% o'r asesiad drwedd a thro. Fel canllaw, dylai modiwlau gael rhwng dau a phedwar o asesiadau, yn dibynnu ar eu gwerth credyd. Gellir cael eithriadau; er enghraifft, modiwlau traethawd hir, neu fodiwlau lle disgwylir i fyfyrwyr lunio portffolio, neu gyflawni cyfres o ymarferion cysylltiedig.

6. Dylid cynllunio asesu i ennyn cyfraniad myfyrwyr a dal gafael ar fyfyrwyr. Dylid cael cydbwysedd o asesu ffurfiannol ac adolygol mewn rhaglenni. Dylai baich gwaith asesu fod yn gytbwys ar draws y flwyddyn academiaidd, a dylid ei gydlynu ar lefel y rhaglen - gan gymryd adborth myfyrwyr i ystyriaeth - er mwyn osgoi cael nifer o ddyddiadau cyflwyno yn agos at ei gilydd. Dylai asesu fod yn gyfadferadwy cyn belled ag y bo modd.
7. Dylai asesu fod yn ddigon heriol a dylai adlewyrchu'r lefel astudio fesul cam. Dylid cymryd gofal neilltuol i sicrhau bod yr asesu'n mesur yn ddilys gyrhaeddiad myfyrwyr yn y deilliannau dysgu perthnasol, a'i fod yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos y cyrhaeddiad hwnnw i'r lefel uchaf bosib.
8. Dylai asesu fod yn effeithlon. Mae gor-asesu'n annog dysgu arwynebol ac yn rhoi baich gwaith diangen i fyfyrwyr a staff. Ni ddylai deilliannau dysgu gael eu hasesu dro ar ôl tro o fewn modiwl. Yn ogystal, dylai'r ymdrech a ddisgwylir gan fyfyrwyr ar gyfer asesiad penodol adlewyrchu'n ddilys y pwysoliad a roddir iddo. Yn arbennig, mae perygl y gall tasgau gyda phwysoliad isel gymryd gormod o ymdrech i'w cyflawni.
9. Gall asesu cyfoedion gael ei ddefnyddio lle bo'n briodol, yn arbennig fel dull o asesu ffurfiannol. Mae asesu gwaith eu cyfoedion yn galluogi myfyrwyr i ddeall meini prawf marcio a'u cymhwyso at waith eraill, a thrwy hynny gynorthwyo eu hunain i ddysgu bod yn adfyfiriol a gwrthrychol ynghylch eu gwaith eu hunain.
10. Gall asesu gan grŵp gael ei ddefnyddio lle bo'n briodol, ond lle caiff ei ddefnyddio, dylai myfyrwyr gael eu graddio'n unigol lle bo'n bosib.
11. Dylid darparu meini prawf marcio pwnc-benodol i fyfyrwyr, sy'n gymwys i'r dull asesu a ddefnyddir.
12. Rhaid darparu adborth o fewn pedair wythnos waith, a chyn belled ag y bo modd cyn dyddiad cyflwyno unrhyw asesiad dilynol cysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau y ceir y budd mwyaf o'r adborth. Lle bo modd, dylid rhoi dyddiad adborth i fyfyrwyr cyn iddynt gyflwyno asesiad. Yn achos arholiadau, dylid darparu adborth yn y semester dilynol.
13. Dylai adborth fod mor adeiladol ac anogol a phosibl. Dylai egluro sail y radd a ddyfarnwyd, a dylai egluro sut y gellid gwneud gwelliannau. Dylid ystyried adborth fel deialog parhaus rhwng myfyrwyr a marcwyr, a dylid defnyddio amrywiaeth o dulliau - er enghraifft dan arweiniad cyfoedion, un-i-un, adborth grŵp etc.
14. Dylai asesu gael ei gynllunio i leihau risg llên-ladrad ac ymarfer annheg cyn belled ag y bo modd.

3. Baich Gwaith Asesu a Chanllawiau Cywerthedd

Er mwyn gweithredu'r egwyddorion uchod, dylai'r rhai sy'n cynllunio modiwlau a rhaglenni gymryd camau i sicrhau bod y baich gwaith asesu'n briodol, ac yn dod o fewn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol gan reoliadau Prifysgol Bangor.

Fel canllaw, awgrymir fel man cychwyn y dylai asesiad gael amser **ymdrech tybiedig o 2-2.5 awr i bob credyd**.*

Yn achos dulliau asesu traddodiadol gellid trosi hyn yn **200-250 gair y credyd** (am draethawd), a **12-15 munud y credyd** (yn achos arholiad). Mae hyn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod arholiad 1 awr yn cynrychioli 10 awr o amser ymdrech, a bod traethawd 1,000 o eiriau hefyd yn cynrychioli 10 awr o amser ymdrech.

Ar sail dull asesiad sengl damcaniaethol, mae hyn yn awgrymu (ond nodwch egwyddor 5 uchod), y byddai gan fodiwl 10 credyd naill ai draethawd 2,000 - 2,500 o eiriau neu arholiad 2-2.5 awr, gyda chyfanswm amser ymdrech o 20-25 awr.

Lle defnyddir cyfuniad o draethodau ac arholiadau mewn modiwl, mae'r enghreifftiau a ganlyn yn dangos mesuriadau posib:

Enghraifft A (modiwl 20 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Traethawd	2,000 o eiriau (20 awr)	50%
Arholiad	2 awr (20 awr)	50%

Enghraifft B (modiwl 20 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Traethawd	3,000 o eiriau (30 awr)	60%
Arholiad	2 awr (20 awr)	40%

* Sylwer bod y ffigur hwn i'w ddefnyddio fel arweiniad yn unig wrth gynllunio asesiad. Gall myfyrwyr fod angen treulio mwy neu lai o amser ar unrhyw dasg asesu benodol fel bo'n briodol, ac yn unol ag unrhyw addasiadau a nodwyd mewn Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol. Wrth ddatblygu modiwlau dylid cymryd gofal i sicrhau bod myfyrwyr hefyd yn cael amser priodol ar gyfer astudio eu hunain, yn cynnwys amser i baratoi unrhyw asesiad ffurfiannol, yn ychwanegol at amser cyswllt a'r amser sydd ei angen ar gyfer asesu.

Enghraifft C (modiwl 10 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Traethawd	1,500 o eiriau (15 awr)	60%
Arholiad	1 awr (10 awr)	40%

O ganlyniad i'r symud oddi wrth ddulliau asesu traddodiadol (yn arbennig traethodau ac arholiadau), sy'n haws eu mesur, at fathau eraill o asesu, megis blogiau a phosteri, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau bod yr ymdrech sydd ei hangen gan fyfyrwyr mewn unrhyw asesiad penodol yn gyson a chymesur â phwysoliad yr asesiad hwnnw.

O ran cywerthoedd, awgrymir y byddai angen 10 awr o amser ymdrech i bob un o'r canlynol:

- Poster;
- Prawf MCQ yn para awr;
- Cyflwyniad llafar o 10 munud;
- Perfformiad cerddorol o 10 munud;
- Cofnod adfyfyriol 2,000 o eiriau mewn dyddiadur/blog;
- Asesiad clinigol 10 munud.

I roi enghreifftiau pellach, byddai hyn yn golygu y gallai modiwl gael y mesuriadau asesu a ganlyn:

Enghraifft D (modiwl 10 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Traethawd	1,000 o eiriau (10 awr)	50%
Cyflwyniad llafar	10 munud (10 awr)	50%

Enghraifft E (modiwl 10 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Arholiad	1.5 awr (15 awr)	60%
Dyddiadur adfyfyriol	2,000 o eiriau (10 awr)	40%

Enghraifft F (modiwl 20 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Traethawd	3,000 o eiriau (30 awr)	75%
Cyflwyniad llafar	10 munud (10 awr)	25%

Enghraifft G (modiwl 20 credyd)

Math Asesiad	Mesuriad Asesiad/Amser Ymdrech	Pwysoliad Asesiad
Prawf MCQ	1 awr (10 awr)	20%
Traethawd	2,000 o eiriau (20 awr)	40%
Arholiad	2 awr (20 awr)	40%

Ni fyddai'n ymarferol llunio rhestr o holl ddulliau asesu posibl; felly, lle defnyddir dull gwahanol, awgrymir y dylid rhoi ystyriaeth i'r amser ymdrech.

Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn amlwg yn syth faint o amser ymdrech sydd ei angen ar gyfer asesiad neilltuol, er enghraifft, arholiadau 'mynd adref'. Os dyna'r achos, dylid rhoi cyfarwyddyd priodol i fyfyrwyr.

Gellir asesu'r baich gwaith asesu hefyd, yn dibynnu ar lefel addysgu mewn modiwl. Er enghraifft, os yw'r amser astudio strwythuredig/amser cyswllt yn isel, yna gall y baich gwaith asesu fod yn uwch o ganlyniad (er enghraifft, traethawd hir).

Mae'r Fframwaith hwn yn cydnabod bod ymdrin â baich gwaith o safbwynt bod un dull yn briodol i bob math yn anymarferol, ac y gall fod rhesymau addysgol cadarn, neu ffactorau eraill fel gofynion corff proffesiynol, sy'n gwneud peth amrywiad yn anochel. Fel mater o drefn, fodd bynnag, bydd angen i unrhyw beth sydd dros 10% ar y naill ochr neu'r llall i'r baich gwaith a awgrymir uchod, gael ei gyfiawnhau fel rheol adeg dilysu.